# HAFINA CLWYD YN CASGLU MYGIAU

MAE gen i ryw hanner cant o fygiau yma ac acw o gwmpas y tŷ, y rhan fwyaf ohonyn nhw â rhyw gysylltiad Cymreig. Go brin eu bod yn werth llawer o arian gan nad ydynt wedi cael eu gwneud o borslen cain na dim o'r fath ond y mae iddynt i gyd arwyddocâd arbennig.

Nodi dyddiad neu ryw achlysur arbennig a wna pob un bron ac y mae gen i nifer o rai a wnaed ar gyfer codi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol neu Eisteddfod yr Urdd, er enghraifft. Rwy'n hoff iawn o'r mwg a gyhoeddwyd adeg Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi 1976 oherwydd bod y cyferbyniad rhwng y du a'r gwyn arno mor ddeniadol. Un arall deniadol yw hwnnw a gyhoeddwyd yn 1974 i nodi'r ffaith bod Bwrdeistref Pensans yng Nghernyw yn cael ei diddymu — mŵg glas tywyll ac arno enw dau faer — John Maddern, yr un cyntaf yn 1614, a David Pooley, yr un olaf yn 1974. Yn eu tro bu Ysgol Gymraeg Llundain, Nant Gwrtheyrn, Clwb Rygbi Caerdydd a Chanolfan Iaith Clwyd yn codi arian neu'n dathlu ac yr oedd yn llawer haws rhoi rhodd fechan iddynt os oedd hynny'n golygu ychwanegu at y casgliad difyr a lliwgar o fygiau ar fy silffoedd.

Wrth gwrs y mae yna rai eraill sydd ag arwyddocâd arbennig iawn neu sydd yn dwyn atgofion hapus yn ôl wrth i mi edrych arnynt. Yn ddiweddar yr oedd tŵr Eglwys Gwyddelwern, yn Edeirnion, mewn perygl ac yr oedd angen cronfa helaeth i'w atgyweirio. Un o'r pethau a gynhyrchwyd er mwyn codi pres oedd mŵg llathrwyn ac arno lun mewn brown tyner o'r eglwys, yr ywen a'r fynwent a'r geiriau, 'Eglwys Beuno Sant Gwyddelwern' arno. Gwnaed y mŵg yn Lloegr gan gwmni o'r enw Churchill.

Dywed hanes mai ar lan afon Hafren ym Mhowys y ganwyd Beuno a'i fod yn perthyn i deulu brenhinol Morgannwg. Dydd ei ŵyl yw 21 Ebrill ac y mae eglwysi wedi'u cysegru iddo mewn nifer o fannau yng ngogledd Cymru — gan gynnwys Llanycil, Trefdraeth, Clynnog-fawr a Gwyddelwern. Dywedir iddo adfer bywyd Gwenffrewi ar ôl iddi gael ei dienyddio a bu cryn bererindota at Ffynnon Beuno. Mae yna Ffynnon Beuno yng Ngwyddelwern. Pan gerddwn i'r ysgol gynradd yn y pentre a chyrraedd y trum yn y Deunant gallwn weld yr eglwys a'r cloc — a gwyddwn fy mod yn hwyr unwaith eto!


Yn ystod yr awr ginio byddem yn aml iawn yn mynd yn un criw i'r fynwent ac yn mwynhau ein hunain yn chwarae sbonc llyffant dros y cerrig beddi. Ofnaf ein bod wedi torri nifer o'r blodau ffug dan eu clychau gwydr a'r addurniadau cain eraill ar y beddi. Pan ymwelais â'r fynwent ryw flwyddyn yn ôl nid oedd sôn am y cofiannau Fictoraidd a gofiaf gynt. Mae'r fynwent wedi cael ei thacluso'n werth chweil. Yn nyddiau ysgol nid oedd yr un enw ar y cerrig oedd yn golygu dim byd i mi ond erbyn hyn y mae dros eu hanner yn enwau cyfarwydd.

Fis Awst 1957, ar ôl Eisteddfod Llangefni a chyn mynd i Lundain yn athrawes, bûm yn gweithio mewn gwesty yn Llandudno. Gweinyddes ddigon trwsgl oeddwn i a dweud y lleiaf. Ond yr oedd yn haf poeth ac yr oedd Llandudno yn fwrlwm o weithgareddau ac ymwelwyr. Ymysg y rhai oedd yn treulio eu gwyliau yn y gwesty lle'r oeddwn yn gweithio roedd tri chyfaill o Glasgow. Deuthum i'w hadnabod yn dda — un meddyg, un cyfrifydd ac un gemydd. Tri Iddew gyda hanes cythryblus a rhamantus y tu cefn iddynt. Daeth un ohonyn nhw — George — a minnau'n gyfeillion pennaf er na ddarganfûm am fisoedd lawer ei fod wedi defnyddio enw ffug. Ei enw cywir oedd Arnold ac yr oedd ei daid a'i nain wedi dianc o'r ghetto yn Rwsia a hwylio i ffwrdd am America am eu bywydau. 'Dyma America,' meddai capten y llong wrthynt a'u taflu allan. Cawsant eu hunain yn Glasgow, criw mawr ohonynt, ac yno y buont byth.

Bydd George a minnau'n dathlu deugain mlynedd o gyfeillgarwch ym mis Awst 1997. Buom yn ysgrifennu llythyrau at ein gilydd yn gyson ac yr ydym wedi llwyddo i weld ein gilydd bob blwyddyn. Yn 1990 yr oedd dinas Glasgow wedi'i dewis fel Dinas Ddiwylliannol Ewrop ac wrth gwrs fe gyhoeddwyd mygiau i ddathlu'r achlysur. Anfonodd George un i mi wrth gwrs. Fe'i gwnaed o grochenwaith caled gwyn yn Dunoon a'r geiriau, 'Made in Scotland' yn falch ar y gwaelod. Rownd y mŵg ceir lluniau sepia o olygfeydd yn ninas Glasgow.

Dywed rhai nad oes y fath beth â chyfeillgarwch platonig yn bosibl. Y mae cyfeillgarwch George a minnau'n gwrthbrofi hynny. Buom yn ffrindiau pennaf ac ni chefais ffyddlonach un ac y mae'n berchen llawer cyfrinach na fyddwn yn breuddwydio am ei rhannu â neb arall. Dyna pam mae mŵg o Glasgow yn cael lle anrhydeddus ar y silff.

Daw'r mŵg o Wyddelwern ag atgofion yn ôl am ddyddiau ysgol dibryder a'r mŵg o Glasgow yn f'atgoffa am ieuenctid cyn gorfod




ei throi hi am Lundain i ennill fy mara menyn. Caf bleser mawr hefyd wrth edrych ar fŵg gwyn arall a wnaed yn Lloegr ac arno lun mewn glas a du o long bleser fawr. Bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â mordeithio yn 'nabod y simdde fawr ar y llong ac yn gwybod mai un o longau P & O ydyw. O dan y llun mae'r geiriau *'SS Uganda'*. Allaf i ddim cychwyn disgrifio'r hwyl a'r pleser a gefais ar y llong arbennig hon. Un o fflyd o longau addysgol P & O oedd hi a byddai'n hwylio o gwmpas Môr y Canoldir gyda rhyw naw cant o blant a'u hathrawon a rhyw ddau gant o deithwyr annibynnol ar ei bwrdd. Yn ystod fy nghyfnod fel athrawes yn Islington yn Llundain euthum â phlant ar daith ar yr *Uganda* ryw hanner dwsin o weithiau.

Yr oedd y plant yn cael gwersi yn ystod y dydd yn union fel yn yr ysgol eithr yn y min nos yr oedd staff y llong yn cymryd drosodd a ninnau'r athrawon yn cael hoe i fwynhau cinio gogoneddus, gwinoedd gwych ac adloniant o bob math. Yna tua deg o'r gloch aem i lawr i berfeddion y llong i roi'r plant yn eu gwelyau a cheisio perswadio'r diawchiaid i gysgu. Y ffordd orau o ddisgrifio'r profiad yw dweud ei fod yn waith caled mewn amgylchiadau paradwysaidd.

Y tro cyntaf i mi fynd ar un o'r mordeithiau ysgol hyn oedd yn nechrau'r 70au a chofiaf mai £45 oedd pris pythefnos o hwylio o Napoli, Athen, Majorca, Melita, Fenis, ac ati. Canlyniad hyn i gyd oedd i mi wirioni'n lân ar fordeithio pleser ac nid oes dim math arall o wyliau a wna'r tro. Erbyn hyn mae gen i fygiau a gafwyd ar fwrdd llongau eraill — y *Sagafjord* a'r *Cunard Countess*, ac yn y blaen.

Daw pwl o chwithdod drosof wrth edrych ar fŵg *Uganda* gan feddwl am yr hwyl a gawsom oherwydd nid yw'r llong yn bod bellach. Yn ystod Rhyfel y *Falklands* cafodd ei thrawsnewid yn ysbyty a dyna fu ei diwedd. Yn ôl a ddeallaf nid yw'r *Uganda* namyn pentwr o haearn wedi rhydu yn Taiwan erbyn hyn.

Pan gafodd fy ngŵr a minnau ein parti ffarwelio â'r ysgol cyn inni ddychwelyd i Gymru ddiwedd 1979 un o'r anrhegion a gyflwynwyd inni oedd mŵg o liw hufen gydag ymyl frown arno. Gwnaed yn Japan. Y geiriau mewn llythrennau bras brown arno yw, *'Old teachers never die, they just lose their class'*. Yn y cyfnod hwnnw yr oedd yna dipyn o barch tuag at athrawon — yn arbennig yn y dinasoedd oherwydd hebddynt byddai pethau wedi mynd yn chwilfriw. Erbyn heddiw nid yw plant yn gwybod sut i ymateb i athrawon gan fod y Llywodraeth yn dweud wrthynt mai creaduriaid da i ddim yw athrawon.

Y mae'r mŵg hwn yn f'atgoffa o'r blynyddoedd prysur a chaled ac am gyfeillgarwch cydweithwyr, a'r hiwmor oedd yn ein cadw allan o'r seilam. Oherwydd ar waelod y mŵg, wedi'i ysgrifennu mewn cylch gyda phaent aur annileadwy, mae'r geiriau, 'TTI SAPIS SPO

*(parhad ar dudalen 15)*